

Cyngor Gwynedd

Cronfa Bensiwn Gwynedd
(Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gwynedd,
a Chyngor Sir Ynys Môn)

Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd
(Cynghorau Gogledd Cymru)

Cyngor Gwynedd fel Awdurdod Harbwr

Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd
(Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn)

Cyd-bwyllgor GwE (Cynghorau Gogledd Cymru)

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
(Cynghorau Gogledd Cymru)

Adrannau 30 a 31

**DEDDF ARCHWILIO CYHOEDDUS (CYMRU) 2004,
RHEOLIADAU CYFRIFON AC ARCHWILIO (CYMRU) 2014 (FEL Y'I DIWYGIWYD)
Archwilio Cyfrifon am y Flwyddyn Ariannol 2022/23
RHYBUDD AM HAWLIAU CYHOEDDUS**

- Gall y personau sydd â diddordeb yn y materion hyn archwilio a gwneud copïau o gyfrifon yr uchod am flwyddyn ariannol 2022/23 ynghyd â holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynion y cyfrifon hynny. Bydd modd gwneud hyn yn Adran Cyllid, Cyngor Gwynedd, yn ystod y cyfnod 29 Awst i 25 Medi 2023, dydd Llun i Gwener bob wythnos rhwng 9.00 y.b. a 4.30 y.p. Gyda nifer o staff yn gweithio dan drefniadau gweithio hybrid, os am archwilio'r cyfrifon yna dylid cysylltu un ai drwy e-bost Trysorydd@gwynedd.llyw.cymru neu ffonio (01766) 771 000 yn y lle cyntaf i drefnu apwyntiad. Bydd Datganiad o'r Cyfrifon hefyd ar gael ar ein gwefan www.gwynedd.llyw.cymru
- Archwilydd y cyfrifon yw Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.
- Ar 26 Medi 2023, neu wedi hynny, ar gyfer:

| Cyfrifon | Bydd hawl gan etholwyr |
|--|--|
| Cyngor Gwynedd a Chyngor Gwynedd fel Awdurdod Harbwr | Cyngor Gwynedd |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | Cynghorau Gwynedd a Môn |
| Cyd-bwyllgor GwE, Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Cynghorau Conwy, Dinbych, Fflint, Gwynedd, Môn a Wrecsam |
| Cronfa Bensiwn Gwynedd | Cynghorau Conwy, Gwynedd a Môn |

ofyn i'r Archwilydd roi cyfle iddynt neu'u cynrychiolwyr ei holi am y cyfrifon a'r hawl i gyfarfod gydag ef ac i gyflwyno gwrthwynebiadau:

- ar y sail fod unrhyw eitem yn y cyfrifon yn torri'r gyfraith, bod rhywun wedi hepgor unrhyw swm yn y cyfrif y dylid fod wedi'i gynnwys neu y bu colled neu ddiffyg oherwydd camymddygiad bwriadol ar ran unrhyw berson; neu
 - unrhyw fater y sylwodd yr Archwilydd arno yn ystod yr archwiliad ac y gallai adrodd arno er budd y cyhoedd.
- Serch hynny, ni ellir gwrthwynebu oni bai fod yr Archwilydd yn y lle cyntaf wedi derbyn rhybudd ysgrifenedig am hynny ac yn nodi'r rhesymau dros wrthwynebu. Yr un pryd ag yr anfonir rhybudd gwrthwynebu i'r Archwilydd, rhaid anfon copi o'r rhybudd i Gyngor Gwynedd i'r cyfeiriad isod.

Dyddiedig: Awst 2023



Dewi Aeron Morgan
Pennaeth Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfeydd y Cyngor
Stryd y Jêl
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH